

CYNGOR CYMUNED PENNAL

Cofnodion o gyfarfod o'r Cyngor a gynhaliwyd Nos Fawrth 17eg Ionawr 2023 am 7yh yn y Ganolfan Pennal.

Presennol; Meirion Roberts (Cadeirydd) Rhys Parry, James Brunton, Williams Rees, Kenneth Griffiths, Dewi Owen (Cyngor Gwynedd) a Huw T Jones

1. Estynwyd groeso cynnes i bawb gan y Cadeirydd Meirion Roberts. Roedd ymddiheuriadau i law gan Deilwen Breese (Clerc) a oedd yn dioddef o'r fflw, a'r Cyng Aled Rees.
Croesawyd Huw T Jones a fyddai yn cymryd trosodd fel Clerc o ddechrau Ebrill.
2. Cadarnhawyd gofnodion y cyfarfod diwethaf a gynhaliwyd 11 Tachwedd ar gynnis Cyng. William Rees a'i eilio gan James Brunton

3. Materion yn codi – ac hefyd cyfeiriwyd at y materion canlynol;

- Praesept – wedi ei godi i £15,000 oherwydd costau ychwanegol.
- Mandate banc – angen rhoi enw Huw T Jones yn lle Deilwen Breese. Huw i drefnu hyn o ddiwedd Mawrth. Byddai rhaid gwneud bancio ar lein, a chytunodd pawb i hyn.
- Deffibiwlator – angen son wrth Deilwen
- Bagiau swnd - Cyng William Rees wedi trefnu.
- Dreaniau yn y pentref – roedd Dewi Owen wedi cyfarfod Sion Wilkes, a byddai yn dod allan eto.
- Hyfforddiant – amlinellodd Huw beth sydd ei angen yn fras, hyn i'w drafod eto.
- Coeden Nadolig – roedd Cwmni Tilhill wedi ei rhoi, a Cyng William Rees wedi ei gosod a diolchwyd am hyn.
- Roedd llythyr am o ddiolch am £200 gan gylch Ti a Fi Pennal.
- Mynwent yr Eglwys – byddai rhaid cael sicrwydd y byddai y coed yn cael eu torri – heb glywed dim ymhellach.
- Cyllideb 2023-24 – cytunwyd ar y penawdau o gostau a oedd wedi eu paratoi gan Deilwen.
- Roedd angen eglurhad ar rai taliadau ers tro diwethaf. Cytunwyd taliad o £600 i Deilwen, hefyd £856.80 i Cyngor Gwynedd am dorri gwair. Byddai Meirion Roberts yn mynd i weld Deilwen i gadarnhau rhai materion.
- Arian yn y banc £2606.24 yn y Cyfri Cadw, £1640.99 Cyfri Cyfredol.
- Menter y Glan – adroddwyd y diweddaraf. Roedd y pryniant wedi ei gwblhau 22.12.22. Byddai cyflogau presennol yn cael eu talu tan ddiwedd Ionawr. Agoriad swyddogol i fod ar yr 2ail o Chwefror. Roedd cyfweliadau wedi cychwyn ar gyfer Rheolwr. Roedd cefnogaeth dda iawn wedi ei dderbyn i'r fenter. Diolchwyd yn fawr iawn i bawb.

4. Unrhyw fater arall.

- Biniau baw cwn - roedd angen 2 fin ychwanegol.
- Nid oedd Cyngor Gwynedd yn graenau Tower Road – roedd angen gwneud cwyn.
- Roedd angen llinellau ar y ffordd yn y maes parcio yn Cwrt.
- Roedd carafan static wedi ei lleoli yn Cwm Sylwi, ac nid oedd yn ymddangos fod Cais cynllunio wedi ei wneud. Byddai Dewi Owen yn ymchwilio gyda'r Parc.
- Byddai'r cyfarfod nesaf ynghanol mis Mawrth

Daethpwyd a'r cyfarfod i ben am 8.00.

